ATODLEN 2

Darparu Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol

# RHAN 1

**Pob Disgybl**

**1.** Yr wybodaeth ganlynol am y disgybl—

(a) Rhif unigryw cyfredol y disgybl ac, os bu gan yr ysgol rif unigryw blaenorol ar gyfer y disgybl hwnnw, y Rhif blaenorol;

(b) cyfenw;

(c) enw cyntaf y disgybl, neu bob enw cyntaf os oes mwy nag un;

(ch) enw canol y disgybl, neu bob enw canol os oes mwy nag un;

(d) rhyw;

(dd) dyddiad geni;

(e) grwp ethnig;

(f) hunaniaeth genedlaethol;

(ff) dyddiad derbyn y disgybl i'r ysgol; ac

(g) grŵp blwyddyn y Cwricwlwm Cenedlaethol yr addysgir y disgybl ynddo.

**2.** Cod post y cartref lle y mae'r disgybl fel arfer yn preswylio.

**3.** A gafodd yr wybodaeth am grŵp ethnig a hunaniaeth genedlaethol y disgybl a ddarparwyd yn rhinwedd yr Atodlen hon ei darparu gan—

(a) y disgybl;

(b) rhiant;

(c) yr ysgol;

(ch) ysgol flaenorol; neu

(d) unrhyw ffynhonnell arall.

**4.** Pa mor rhugl yw'r disgybl yn y Gymraeg.

**5.** A yw'r disgybl yn astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf neu fel ail iaith.

**6.** A gafodd yr wybodaeth am lefel rhugledd y disgybl yn y Gymraeg a ddarparwyd yn rhinwedd y Rhan hon ei darparu gan—

(a) y disgybl;

(b) rhiant;

(c) yr ysgol;

(ch) ysgol flaenorol; neu

(d) unrhyw ffynhonnell arall.

**7.** A yw'r disgybl yn astudio unrhyw bwnc, ac eithrio'r Gymraeg fel iaith gyntaf neu fel ail iaith, drwy gyfrwng y Gymraeg.

**8.** A yw'r disgybl, yn unol ag adrannau 512(3) a 512ZB o Ddeddf 1996(**1**), wedi gwneud cais am gael prydau bwyd am ddim yn yr ysgol ac wedi ei gael yn gymwys.

**9.** A oes gan y disgybl anghenion addysgol arbennig ac, os felly, cadarnhad ynghylch—

(a) prif angen y disgybl ac unrhyw angen eilaidd a nodwyd;

(b) pa lefel a pha fath o ddarpariaeth anghenion addysgol arbennig, sy'n rhan o'r ymagwedd raddedig a fabwysiadwyd yn unol â "Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru", a gyhoeddwyd o dan adran 313 o Ddeddf 1996 ac a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2002, sy'n cael ei gwneud i'r disgybl hwnnw; ac

(c) y cymorth a ddarperir.

**10.** Pan yw'r disgybl, hyd eithaf gwybodaeth y corff llywodraethu, yn blentyn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, y ffaith honno ac enw'r awdurdod lleol hwnnw.

**11.** A yw'r disgybl, hyd eithaf gwybodaeth y corff llywodraethu, wedi bod yn blentyn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol tra bu ar gofrestr yr ysgol, ac, os felly, enw'r awdurdod lleol yr oedd y disgybl yn derbyn gofal ganddo yn fwyaf diweddar.

**12.** Yn achos ysgol arbennig nad yw'n ysgol arbennig a sefydlwyd mewn ysbyty a yw'r disgybl yn byrddio yn yr ysgol ac, os felly, a yw'r disgybl yn byrddio am saith noson yr wythnos neu am lai na saith noson yr wythnos.

**13.** A yw'r disgybl yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol neu mewn mwy nag un ysgol ac, os yw'r disgybl wedi ei gofrestru'n ddisgybl mewn mwy nag un ysgol, a yw'r wybodaeth amdano yn cael ei llunio gan yr ysgol y mae'r disgybl yn ei mynychu am y rhan fwyaf o'i amser.

**14.** A yw'r disgybl yn ddisgybl rhan-amser ac, at ddibenion y paragraff hwn, ystyr "rhan-amser" ("*part-time*") yw bod y disgybl yn mynychu llai na deg sesiwn ysgol mewn unrhyw wythnos pan fydd yr ysgol yn cyfarfod.

**15.** Yn achos ysgol nad yw'n ysgol arbennig, a yw'r disgybl yn cael addysg—

(a) mewn dosbarth meithrin;

(b) mewn dosbarth arbennig a ddynodwyd felly gan yr awdurdod addysg lleol neu a drefnwyd felly gan yr ysgol; neu

(c) mewn dosbarth prif ffrwd nad yw wedi ei ddynodi'n ddosbarth arbennig gan yr awdurdod addysg lleol neu wedi ei drefnu'n ddosbarth arbennig gan yr ysgol.

**16.** Cyfanswm nifer y canlynol—

(a) sesiynau ysgol yn ystod y flwyddyn ysgol pan oedd y disgybl yn ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol;

(b) y sesiynau ysgol hynny yn ystod y flwyddyn ysgol y gwnaeth y disgybl eu mynychu; ac

(c) nifer yr absenoldebau a awdurdodwyd a'r absenoldebau nas awdurdodwyd ar gyfer y disgybl.

(**1**) Amnewidiwyd adrannau 512 a 512ZB gan adran 202(1) o Ddeddf 2002.